Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25

Hydref 2024

# 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 1 Hydref 2024, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (yr Ysgrifennydd Cabinet) Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 (y gyllideb atodol) Llywodraeth Cymru;[1] Nodyn Esboniadol cysylltiedig[2] a dyraniadau Prif Grwpiau Gwariant (MEG).[3] Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet yn ei gyfarfod ar 10 Hydref 2024.[4]

**2.** Mae'r gyllideb atodol hon yn adlewyrchu newidiadau cyllidebol ers i'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2024-25 gael ei gosod ar 27 Chwefror 2024[5] a'i chymeradwyo gan y Senedd ar 5 Mawrth 2024.[6] Mae hefyd yn cynnwys addasiadau y gofynnwyd amdanynt i'r cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, fel y'u hystyriwyd gan y Pwyllgor ar 16[7] a 22 Mai 2024.[8] Ni wnaed cais atodol ar yr achlysur hwn gan Archwilio Cymru.

**3.** Fel arfer, mae Llywodraeth Cymru yn gosod ei chyllideb atodol gyntaf ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, cyn toriad yr haf. Fodd bynnag, ar 10 Mehefin 2024 hysbysodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet y Pwyllgor y byddai cyhoeddi'r gyllideb atodol yn cael ei gohirio eleni, gan ddatgan y canlynol:

> *"Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU am Etholiad Cyffredinol ar 4 Gorffennaf a diddymu Senedd y DU ar 30 Mai, mae swyddogion Trysorlys EF wedi cadarnhau na fydd y Prif Amcangyfrifon ar gyfer 2024-25 yn cael eu gosod ac na fydd pleidlais arnynt nes i Senedd y DU ddychwelyd ar ôl yr etholiad.*
>
> *O dan yr amgylchiadau nid oes unrhyw opsiwn gwirioneddol ond gohirio cyhoeddi'r gyllideb atodol gyntaf nes y byddwn mewn sefyllfa i gadarnhau ein cyfansymiau rheoli diwygiedig ac nes y bydd pleidlais wedi bod ar y Prif Amcangyfrifon a phan fyddant ar gael i'r cyhoedd.*

[1] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25
[2] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol
[3] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25: Dyraniadau prif grwpiau gwariant
[4] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024
[5] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Derfynol 2024-25
[6] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 5 Mawrth 2024
[7] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnodion, 16 Mai 2024
[8] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mai 2024

> *Gyda thoriadau'r haf yn disgyn rhwng 22 Gorffennaf a 15 Medi, er mwyn caniatáu'r isafswm o dair wythnos ar gyfer craffu o dan y Rheolau Sefydlog, caiff y gyllideb atodol gyntaf ei chyhoeddi bellach ar ôl toriad yr haf. Ni chytunwyd ar unrhyw amserlen eto, ond byddaf yn eich hysbysu maes o law. Rwyf yn disgwyl mai ar ddechrau tymor yr Hydref y bydd hyn."*[9]

**4.** Ar 18 Medi 2024, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r gyllideb atodol yn cael ei gosod gerbron y Senedd ar 1 Hydref 2024, gyda dadl a phleidlais ar 22 Hydref 2024.[10]

[9] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 10 Mehefin 2024
[10] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 18 Medi 2024


# 2. Trosolwg

**5.** Mae'r Nodyn Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol yn datgan fel a ganlyn:

> *"Nid oes dyraniadau newydd yn y gyllideb hon ac mae'r holl newidiadau yn ymwneud â chyllid a gyhoeddwyd yn flaenorol. Nid yw'r cyllid ychwanegol y cytunwyd arno ar gyfer dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus a gyhoeddwyd ar 10 Medi[11] wedi'i gynnwys. Bydd hyn yn cael ei ariannu o symiau canlyniadol disgwyliedig gan Lywodraeth y DU a bydd y dyraniadau hynny'n cael eu rheoleiddio fel rhan o'r ail gyllideb atodol ym mis Chwefror 2025."*[12]

## Prif newidiadau

**6.** Mae'r Nodyn Esboniadol[13] yn dangos cynnydd o £642.9 miliwn (2.7 y cant) mewn refeniw ynghyd â chyfalaf (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol, neu 'AME') a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru, o £23.9 biliwn i £24.5 biliwn. Mae'r newidiadau, y ceir crynodeb ohonynt isod, yn ôl Prif Grŵp Gwariant ('MEG') neu adran.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25

[11] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyflogau'r Sector Cyhoeddus: Ymateb i Argymhellion y Cyrff Adolygu Cyflogau 2024-25
[12] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 2.2
[13] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol

**7.** Mae'r Nodyn Esboniadol hefyd yn cynnwys llawer o drosglwyddiadau o fewn portffolios y Gweinidogion.[14]

| | Total revenue and capital allocation | Change Final Budget to Supplementary Budget |
|---|---|---|
| Health and Social Care | £12,212m | £454m 3.9% ▲ |
| Housing and Local Government | £6,296m | £61m 1.0% ▲ |
| Education* | £2,350m | -£215m -8.4% ▼ |
| Transport | £1,481m | £221m 17.5% ▲ |
| Climate Change and Rural Affairs | £831m | £31m 3.9% ▲ |
| Economy, Energy and Planning | £772m | £87m 12.7% ▲ |
| Central Services and Administration | £401m | -£2m -0.5% ▼ |
| Social Justice | £154m | £6m 3.8% ▲ |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25

*Mae'r gostyngiad Addysg wedi'i sbarduno'n bennaf gan ddyrannu £277 miliwn o refeniw nad yw'n arian parod oherwydd darpariaeth cyllideb adnoddau benthyciadau i fyfyrwyr. (Yn rhoi cyfrif am £238 miliwn o'r gostyngiad yn y Gyllideb Atodol hon).

**8.** Cafwyd cynnydd net o £328.554 miliwn i'r llinell sylfaen adnoddau cyllidol sy'n cynnwys:

- cynnydd o symiau canlyniadol Barnett sy'n dod i gyfanswm o £338.82 miliwn: £168.28 miliwn sy'n gysylltiedig â Chyllideb Gwanwyn 2024 y DU; a chafwyd £170.54 miliwn ym Mhrif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2024;

[14] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, tudalennau 20-22

- £75.908 miliwn gan y Swyddfa Gartref mewn cysylltiad â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
- £23.086 miliwn o gronfeydd wrth gefn Trysorlys EF: £18.72 miliwn mewn cysylltiad â Llinellau Craidd y Cymoedd; £4.327 miliwn mewn cysylltiad â Gwasanaethau Cyngor Ariannol; a £39,000 mewn cysylltiad â chyllid y Gororau;
- £4.551 miliwn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder: £3.738 miliwn mewn cysylltiad â Chyllid Dysgu a Sgiliau'r Parc; ac £813,000 mewn cysylltiad â'r Gronfa Canlyniadau a Rennir;
- £2.59 miliwn gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau mewn cysylltiad â'r Gronfa Atal Digartrefedd;
- "Trosglwyddiad Peirianwaith y Llywodraeth" o £637,000 mewn cysylltiad â chyllid y Rhaglen Seiberddiogelwch Genedlaethol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder;
- trosglwyddiad o £116.928 miliwn allan mewn cysylltiad â gweithredu'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Lesoedd (IFRS16);
- trosglwyddiad o £110,000 allan i Drysorlys y DU mewn cysylltiad â chyllido'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer gwaith ar ragolygon trethi datganoledig.[15]

**9.** Mae gostyngiad cyffredinol o £532.804 miliwn mewn adnoddau anghyllidol, gan gynnwys: £1.177 miliwn i gywiro addasiad canlyniadol blaenorol y cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei fod o ganlyniad i wall gweinyddol gan y Trysorlys[16]; cynnydd o £119.929 miliwn ar gyfer Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (IFRS16); a gostyngiad o £653.91 miliwn ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr.[17]

**10.** Cafwyd cynnydd net o £482.474 miliwn i'r llinell sylfaen cyfalaf cyffredinol sy'n cynnwys:

- gostyngiad o £1.062 miliwn o symiau canlyniadol Barnett ym Mhrif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2024;

[15] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 3.3
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 236
[17] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 3.4

- cynnydd o £81.5 miliwn mewn ychwanegiadau nad ydynt yn rhai Barnett mewn cysylltiad â chyllid ar gyfer Bargeinion Dinesig a Thwf;
- cynnydd o £338.918 miliwn mewn cysylltiad â gweithredu IFRS16;
- trosglwyddiadau o £63.171 miliwn i mewn o gronfeydd wrth gefn Trysorlys EF: £20.28 miliwn mewn cysylltiad â Llinellau Craidd y Cymoedd; a £42.891 miliwn mewn cysylltiad â chyllid y Gororau;
- trosglwyddiad o £53,000 allan i Swyddfa'r Cabinet mewn cysylltiad â 'Rosa' - y cyfleuster gwasanaeth TG trawslywodraethol â rheolaethau diogelu cryfach ar gyfer gwybodaeth sensitif.[18]

**11.** Mae AME refeniw cyffredinol wedi cynyddu £96.587 miliwn ac AME cyfalaf wedi cynyddu £236.155 miliwn. Mae'r rhain yn adlewyrchu diweddariadau i'r rhagolygon a ddarparwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Thrysorlys EF ym mis Medi 2024.[19] Nid oes newid i Gyfalaf Trafodiadau Ariannol.[20]

**12.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y gyllideb atodol yn ymarfer sy'n edrych yn ôl ac sy'n atgyfnerthu'r penderfyniadau gwariant a chyllid a wnaed gan Lywodraeth Cymru ers i'r Senedd basio'r brif gyllideb ym mis Mawrth eleni.[21] Cadarnhaodd hefyd y canlynol:

> *"… almost every decision you see in the supplementary budget predated the First Minister becoming the First Minister, so I don't think it would be fair to say that her priorities, as set out in the statement to the Senedd on 17 September, are reflected very much here because these are largely decisions that had been made prior to her becoming the First Minister."*[22]

## Ysgogiadau cyllidol

### Cronfa Wrth Gefn Cymru

**13.** Mae'r gyllideb atodol yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fenthyca'r uchafswm, sef £150 miliwn, a bod refeniw ychwanegol o £39 miliwn yn cael ei dynnu i lawr o gronfa wrth gefn Cymru, sy'n golygu bod £125 miliwn wedi'i

[18] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 3.6
[19] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 7.1 a Thabl 7.1
[20] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 3.7
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 175
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 175

neilltuo i'w dynnu i lawr yn 2024-25. Nid oes newid i'r cyfalaf o £50 miliwn a neilltuwyd i'w dynnu i lawr na newidiadau o ran incwm o drethi Cymreig.[23]

**14.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrth yr Aelodau:

> *"the supplementary budget reflects not just spending decisions, but that we're able to explain to the Senedd how those funding decisions are to be funded, and the spending decisions that are reflected here relied upon the drawing down of that extra £39 million".*[24]

**15.** Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet, pe bai'r rheolau'n caniatáu hynny, a fyddai'n benthyca ac yn tynnu mwy i lawr yn y gyllideb atodol hon. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu o fewn y rheolau fel y maent ac nad oes dim yn y gyllideb atodol hon sy'n dibynnu ar hyblygrwydd nad yw ar gael.[25]

**16.** Pan ofynnwyd iddo a fyddai dull Llywodraeth Cymru o dynnu arian i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru yn newid ar ôl Datganiad Hydref Llywodraeth y DU ar 30 Hydref, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… if we didn't get a single penny on the 30 October, this budget will still be affordable, because we've used the money from the reserve to make it affordable. If money does come our way, then it will go back into the reserve, and it's a balancing exercise in that way."*[26]

## Cyfalaf

**17.** Mae'r gyllideb atodol yn cadarnhau mai'r cyfalaf cyffredinol dros y dyraniad yw £110.089 miliwn (£108.974 miliwn oedd y swm yn flaenorol).[27] £35.837 miliwn yw'r swm ar gyfer adnoddau refeniw cyllidol heb eu dyrannu.[28]

**18.** Wrth esbonio dull Llywodraeth Cymru o or-ddyrannu cyllid cyfalaf, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Llywodraeth yn hyderus y bydd y

[23] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, Tabl 3.1
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 178
[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 181
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 180
[27] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, Tabl 3.2
[28] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, Tabl 3.2

rhaglenni'n gyson a'r gyllideb yn gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, ond ychwanegodd ei fod yn credu y gall rhai pethau newid.[29]

**19.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet ymhellach o dan ba amgylchiadau y gallai'r dull o ran cyfalaf newid:

> *"... if we get, in the next spending review, a three or a four-year reliable run of capital allocations to Wales, then maybe the case for overprogramming because we don't quite know what's coming our way will be reduced. So, I will be looking in the context of the CSR as to whether or not the overprogramming of capital in the way that we've done it in the last few years is necessary in the future."*[30]

**20.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod cydnabyddiaeth uniongyrchol iawn o'r mater hwn yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ond nad oedd wedi cael arwydd clir gan Lywodraeth y DU a fyddai hynny'n arwain at wariant cyfalaf ychwanegol ym mis Hydref.[31] Ychwanegodd y gallai cryn dipyn o hynny ddod yn ail gyfnod yr adolygiad o wariant yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf.[32]

## Hyblygrwydd y Gyllideb

**21.** Pan drafododd y Pwyllgor y Fframwaith Cyllidol yn ei sesiwn cyn y gyllideb ar 25 Medi 2024, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'n ceisio fframwaith tecach gan y Trysorlys o ran benthyca a hyblygrwydd cyllidebol.[33]

**22.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet mewn tystiolaeth ar y gyllideb atodol ei fod yn parhau i ddadlau'r achos i gydweithwyr yn Llywodraeth y DU am ragor o hyblygrwydd yn y ffordd y mae'r Llywodraeth yn rheoli ei harian ei hun.[34] Esboniodd fel a ganlyn:

> *"When the fiscal framework was negotiated, figures were set of how much we could borrow, how much we could hold in reserve, how much we could draw out annually from the reserve and so on, and the real value of those figures has been*

[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 204
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 205
[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 214
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 214
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Medi 2024, paragraff 105
[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 182

> *significantly eroded, probably by about 30 per cent, in the time between."*[35]

**23.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw'r ffigurau hynny erioed wedi newid, er gwaethaf cais iddynt gadw eu gwir werth ac mai ei nod fyddai dychwelyd i wir werth y ffigurau hynny fel cam cyntaf.[36]

**24.** Yn ogystal, amlinellodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei achos dros ystod ehangach o hyblygrwydd yn y fframwaith cyllidol, a fyddai'n cynnwys:

> *"… not having … that level of micromanagement by the Treasury of how much money we can carry forward, splitting it between revenue and capital, putting annual limits on how much of our own money we can then draw down to use and so on."*[37]

**25.** Pan ofynnwyd iddo ai Cymru sydd â'r hyblygrwydd cyllidol lleiaf o holl genhedloedd datganoledig y DU, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad dyna'r achos bob tro, ond bod hynny wedi dod yn wir yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf.[38]

**26.** Fodd bynnag, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor nad yw'n credu bod achos cryf dros gynnal adolygiad sylfaenol o'n fframwaith cyllidol[39], gan ychwanegu'r canlynol:

> *"I'm simply arguing for an uprating of the figures to its original value. So, the Scots have achieved that, and the Northern Irish achieved it … both other devolved Governments have made some progress where we've not been able to."*[40]

**27.** Mynegodd yr Ysgrifennydd Cabinet rwystredigaeth wrth ddarbwyllo Llywodraeth y DU i gymryd camau yn y maes hwn, gan ddatgan y canlynol:

> *"I felt with the previous Government that it was just difficult to attract their attention for this issue. It's a big issue for us, and a very small issue for a Chancellor managing a UK budget. And I don't think I ever heard a UK Government Minister make a cogent case against what we were arguing for. I felt it was*

[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 184
[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 187
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 188
[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 196
[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 196
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 196

> *more that, in the long, long list of things they were doing, this wasn't something that we could get up their agenda enough for them to attend to it."*[41]

**28.** Fodd bynnag, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y materion hyn wedi ennill mwy o sylw yn ddiweddar drwy drafodaethau yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid:

> *"… the FISC did have quite a focus on financial flexibilities. All three devolved Governments have a case to make for increasing the ability of those Governments to manage their own money without some of the micromanagement that the Treasury applies to it."*[42]

**29.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod trafodaethau yn ymwneud â chynyddu disgresiwn Llywodraeth Cymru i newid cyllid o gyfalaf i refeniw yn bendant wedi digwydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid.[43]

## Newidiadau trawsadrannol

### Cyfraniadau Blwydd-dal wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol 2024-25

**30.** Mae'r gyllideb atodol yn cynnwys dyraniadau sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r gyfradd Cyfraniadau Blwydd-dal wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol (SCAPE) ar gyfer cynlluniau pensiwn nad ydynt yn gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil. SCAPE yw'r broses a ddilynir ar gyfer pennu cyfraniadau cyflogwyr mewn cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael swm canlyniadol at y dibenion hyn ac wedi dyrannu:

- £117.07 miliwn i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer costau staff y GIG;
- £63.811 miliwn i'r MEG Tai a Llywodraeth Leol ar gyfer costau sy'n ymwneud ag athrawon (cyn-16) (£60.706 miliwn) a'r Gwasanaeth Tân (£3.105 miliwn);

[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 191
[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 183
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 207

- £11.925 miliwn i'r MEG Addysg ar gyfer costau sy'n ymwneud ag athrawon mewn lleoliadau chweched dosbarth (£3.606 miliwn) a cholegau Addysg Bellach (£8.319 miliwn).[44]

**31.** Pan ofynnwyd iddo a oedd y dyraniadau hyn yn ddigonol i dalu costau SCAPE yng Nghymru, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y dyraniadau'n talu'r costau.[45] Fodd bynnag, dywedodd wrth yr Aelodau hefyd nad yw'r cyfraniadau blwydd-dal wedi'u haddasu ar gyfer profiad y gorffennol, sef £200 miliwn, yn arian y gall y Llywodraeth ei wario.[46]

**32.** Esboniodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn elfen arian parod, ond ei fod wedi'i glustnodi mewn ffordd.[47] Esboniodd hefyd:

> *"It has arisen specifically because of that decision by the UK Government and therefore the consequentials have arisen, and those are costs that are arising in Wales, so it needs to be used to meet those costs."*[48]

## Gweithredu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Lesoedd

**33.** Mae'r gyllideb atodol hefyd yn adlewyrchu newidiadau i'r ffordd y caiff trefniadau lesio eu cyflwyno yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru ar ôl gweithredu IFRS16.[49] Cafodd y safon newydd ei mabwysiadu gan y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2022 a'i hadlewyrchu gyntaf yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2022-23.[50] Mae IFRS16 yn dod â'r mwyafrif helaeth o lesoedd i'r fantolen, gan effeithio ar refeniw, cyfalaf ac AME.[51]

**34.** Mae'r Nodyn Esboniadol yn datgan:

> *"Mae goblygiadau ailddosbarthu'r gyllideb yn sgil mabwysiadu IFRS16 yn cael eu talu gan Drysorlys EF ar gyfer cyfnod yr Adolygiad o Wariant presennol h.y. 2022-23 i 2024-25".*[52]

---

[44] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, tudalen 3
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 243
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 241
[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 247
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 247
[49] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, tudalennau 4-6
[50] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23: Nodyn Esboniadol, tudalennau 3-5
[51] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 2.13
[52] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 2.16

**35.** Yn y Nodyn Esboniadol, nodir nad yw gweithredu IFRS16 yn effeithio ar y pŵer gwario presennol.[53] Dyma'r addasiad cyffredinol i gyllideb Cymru o ganlyniad i weithredu IFRS16:

- gostyngiad o £116.928 miliwn i refeniw (cyllidol);
- cynnydd o £119.929 miliwn i refeniw (anghyllidol); a
- chynnydd o £338.918 miliwn i gyfalaf.[54]

**36.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw newidiadau sy'n ymwneud ag IFRS16 yn y gyllideb atodol yn cymryd arian o'r hyn y gall y Llywodraeth ei wario. Cadarnhaodd hefyd fod Llywodraeth y DU wedi talu cost y safonau newydd hynny a'i fod yn arian sy'n dod y tu allan i'r grant bloc ac mai dim ond at y diben hwnnw y gellir ei ddefnyddio.[55] Ychwanegodd nad yw hyn yn cael effaith ar wariant o ddydd i ddydd. [56]

## Effaith pwysau chwyddiant, costau a chyflogau

**37.** Ffigur chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Awst yw 2.2 y cant.[57] Cadarnhaodd Banc Lloegr y gostyngodd y ffigurau chwyddiant ar gyfer y DU i'w darged 2 y cant ym mis Mai/Mehefin[58] a bod disgwyl iddynt godi i 2.5 y cant erbyn diwedd y flwyddyn. Mae Banc Lloegr yn disgwyl mai dros dro fydd y cynnydd hwn gyda chwyddiant yn dod yn ôl i lawr yn 2025.[59]

**38.** 5.1 y cant oedd y twf blynyddol mewn enillion rheolaidd cyfartalog enwol, ac eithrio bonysau, rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2024. Y tro diwethaf i dwf fod yn is na hyn oedd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022, pan oedd yn 4.7 y cant. Y twf cyfartalog ar gyfer y sector preifat oedd 4.9 y cant, a 5.7 y cant ar gyfer y sector cyhoeddus, y ddau i lawr o'r misoedd blaenorol.[60]

**39.** Ym mis Mawrth 2024, amcangyfrifodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd twf cyflog cyfartalog enwol yn arafu i 3.6 y cant yn 2024 ac y bydd yn gostwng i oddeutu 2 y cant ar gyfer 2025 a 2026.[61]

[53] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 2.17
[54] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 2.19
[55] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 249
[56] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 253
[57] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Chwyddiant prisiau defnyddwyr, y DU: Awst 2024
[58] Banc Lloegr, Adroddiad Polisi Ariannol – Awst 2022
[59] Banc Lloegr, Crynodeb Polisi Ariannol, Medi 2024
[60] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Enillion wythnosol cyfartalog ym Mhrydain Fawr: Medi 2024
[61] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg economaidd a chyllidol – Mawrth 2024

**40.** Pan ofynnwyd iddo a oedd costau chwyddiant wedi arafu yn sgil y gostyngiad diweddar mewn cyfraddau chwyddiant, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd hynny wedi digwydd oherwydd bod prif gyfradd chwyddiant yn cuddio cymaint ac nad yw chwyddiant yn y diwydiant adeiladu wedi gostwng i'r graddau bod arian yn cael ei ryddhau yn ôl i'w ddefnyddio.[62]

**41.** Ar 10 Medi 2024, cyhoeddodd y Prif Weinidog ddyfarniadau cyflog "uwch na chwyddiant" rhwng 5 y cant a 6 y cant ar gyfer staff y GIG, athrawon a gweithwyr y sector cyhoeddus mewn gwasanaethau datganoledig amrywiol.[63] Yn ystod sesiwn y Pwyllgor cyn y gyllideb gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 25 Medi, dywedodd y canlynol wrth yr Aelodau:

> *"In relation to pay, we don't have the final figures and we won't have them until the 30 October budget. The conversations we have had at official level, particularly with Treasury officials, give us confidence that the consequentials we will receive as a result of decisions made on pay by UK Ministers will be sufficient for us to cover the cost of the pay settlements in Wales without us needing to revisit other budgets."*[64]

**42.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y safbwynt hwn wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar y gyllideb atodol, gan ddatgan y canlynol, mewn perthynas â symiau canlyniadol ar gyfer cyflogau'r GIG:

> *"The final confirmation will happen at the end of this month, but all the discussions we've had and the indications we've had give us confidence that they will be covered in full."*[65]

**43.** Hefyd, rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet ragor o wybodaeth am y dyraniad ychwanegol ar gyfer y GIG sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb atodol. Awgrymodd fod hyn yn ymwneud â chyflogau ac amlinellodd yr anawsterau a gafwyd gyda'r Trysorlys yn cadarnhau y byddai'r ffigur hwn yn swm llinell sylfaen[66] o 2024-25 (caiff dyraniadau a wnaed i'r Prif Grŵp Prif Wariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol eu hystyried ymhellach ym Mhennod 3):

[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 268
[63] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg: Prif Weinidog Cymru'n cyhoeddi cynnydd cyflog i'r sector cyhoeddus, 10 Medi 2024
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Medi 2024, paragraff 26
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 266
[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 273

> *"For the last financial year, a deal was struck with Agenda for Change staff in the health service, and a Barnett consequential of that came to Wales. It was around £140 million … What the Treasury was not prepared to do … was to confirm that that figure would be baselined into the current financial year. So, right through our budget-making process, we did not know whether the £140 million that had been agreed for the pay awards would be money that we would get for this financial year."*[67]

**44.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet sut y cafodd hyn ei reoli:

> *"… we would have to base our budget on the belief that that money would be baselined … In the end, in the March budget, it was confirmed that that money was recurring, and that's the £140 million that you see here. It is just the money that was needed to make sure that last year's pay award was carried forward into this year."*[68]

**45.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod y penderfyniad hwn yn rhagdybiaeth gynllunio a'i fod yn fodlon cytuno y gallai'r gyllideb iechyd gynllunio ar y sail bod hyn yn dod. Ychwanegodd nad yw'n arian ar gyfer pethau newydd - mae'n arian i barhau i dalu'r dyfarniad cyflog a oedd eisoes wedi'i wneud.[69]

## Barn y Pwyllgor

**46.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y gyllideb atodol hon yn cadarnhau newidiadau i gyllideb Llywodraeth Cymru ers Datganiad Gwanwyn y DU ym mis Mawrth 2024 a'i bod yn weithredol ac yn drafodiadol ei natur i raddau helaeth. Rydym hefyd yn nodi y gwnaed y penderfyniadau a adlewyrchir yn y gyllideb atodol cyn i'r Prif Weinidog newydd ymgymryd â'r rôl ac nad yw'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn ei datganiad i'r Senedd ar 17 Medi.[70] Ymhellach rydym yn nodi, er bod cyfraddau chwyddiant yn arafu, fod pwysau chwyddiant mewn rhai meysydd megis adeiladu yn parhau i gael effaith ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

---

[67] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 273
[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 273
[69] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 275
[70] Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, 17 Medi 2024, paragraffau 138-154

**47.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet sy'n cadarnhau bod y cyllid canlyniadol a gafwyd mewn cysylltiad â Chyfraniadau Blwydd-dal wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol (SCAPE) wedi'i glustnodi mewn ffordd ac nad yw'n effeithio ar gynlluniau gwariant o ddydd i ddydd Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd, rydym yn nodi'r esboniad a gafwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch y dyraniadau nad ydynt yn arian parod a wnaed yn y gyllideb atodol sy'n ymwneud ag effaith safon cyfrifyddiaeth IFRS16.

**48.** Er ein bod yn cydnabod bod y newidiadau hyn yn ymwneud â meysydd penodol, hoffai'r Pwyllgor eglurhad a fydd graddfa'r newidiadau yn y gyllideb atodol sy'n ymwneud ag IFRS 16 yn cael ei hailadrodd mewn cyllidebau dilynol.

**49.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r penderfyniad a wnaed gan yr Ysgrifennydd Cabinet i dynnu cyllid ychwanegol i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru yn y gyllideb atodol hon. Rydym yn deall y rhesymau dros hyn ac yn derbyn ei fod yn rhoi eglurder o ran sut y gellir ariannu'r penderfyniadau gwariant a'r dyraniadau yn y gyllideb atodol yn ogystal â'n rhoi sicrwydd eu bod yn fforddiadwy.

**50.** Rydym yn nodi bod y gyllideb atodol yn adlewyrchu cyllid canlyniadol a gafwyd gan Lywodraeth y DU i dalu am ddyfarniadau cyflog y GIG. Rydym hefyd yn nodi, yn anffodus, yr anawsterau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru o ran cael cadarnhad gan Lywodraeth y DU y byddai'r cyllid hwn yn rheolaidd ac yn rhan o linell sylfaen cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Mae hyn yn destun pryder, o gofio swm yr arian dan sylw a dibenion y cyllid hwnnw.

**51.** Er ein bod yn croesawu'r ffaith ei bod yn ymddangos bod y mater hwn wedi'i ddatrys, hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o sicrwydd o ran cynlluniau Llywodraeth Cymru er gwaethaf y senario gyllid ansicr hon. Rydym o'r farn bod hyn yn groes i bwyslais yr Ysgrifennydd Cabinet ar sicrhau bod penderfyniadau cyllidol Llywodraeth Cymru yn fforddiadwy ac o fewn rheolau gweithredol, ac yn gofyn am ragor o fanylion ar sut y gwnaed y penderfyniad hwn, y risgiau a nodwyd gyda'r dull hwn ac a wnaed asesiad effaith o sut y gallai effeithio ar feysydd eraill yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

**52.** Mae'r Pwyllgor wedi'i galonogi gan barodrwydd yr Ysgrifennydd Cabinet i geisio mwy o hyblygrwydd cyllidebol i Lywodraeth Cymru yn y fframwaith cyllidol presennol ac mae'n nodi ei fod wedi bod yn bwynt trafod yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 3 Hydref.

**53.** Mae hwn wedi bod yn fater o ddiddordeb hirsefydlog i'r Pwyllgor ac rydym wedi gwneud argymhellion o'r blaen i fwrw ymlaen â'r materion hyn.[71] Yn ddiweddar, rydym wedi galw i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trysorlys gael ei hailosod o ran sut y mae penderfyniadau sy'n ymwneud â chyllid yn cael eu gwneud.[72] Felly, rydym yn cefnogi amcanion yr Ysgrifennydd Cabinet o gynyddu terfynau yn y fframwaith cyllidol yn ogystal â'r amcan ehangach, sef datblygu perthynas fwy effeithiol â'r Trysorlys a symud i ffwrdd o'r dull microreoli o ran cyllid datganoledig sy'n cael ei gymhwyso ar hyn o bryd.

**54.** Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet o'r farn bod angen adolygiad sylfaenol o'r fframwaith cyllidol fel y mae'n gymwys i Gymru ar hyn o bryd a'i fod yn hytrach, yn ceisio uwchraddio'r ffigurau, gan gynyddu terfynau tynnu i lawr, a galluogi newid cyllid o refeniw i gyfalaf. Rydym yn rheolaidd wedi argymell cymryd camau a galw am ddiweddariadau yn y maes hwn[73] ac rydym yn parhau i gredu y dylai Llywodraeth Cymru gael yr un lefelau o ddisgresiwn cyllidol â gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried barn yr Ysgrifennydd Cabinet bod gan Gymru, erbyn hyn, yr hyblygrwydd cyllidol lleiaf o'r holl genhedloedd datganoledig yn y DU. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r dull ymarferol hwn ac yn credu bod yr adolygiad o wariant sydd i ddod yn amserol i bwyso a mesur a bwrw ymlaen â hyn.

**55.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyd-destun cyllid cyfalaf yn newid ac y gallai hyn alluogi Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull gwahanol o or-ddyrannu ei dyraniadau cyfalaf. Ymhellach, rydym yn nodi gobaith yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai Llywodraeth Cymru gael syniad gwell o gyllid cyfalaf yn y dyfodol yn dilyn adolygiad o wariant Llywodraeth y DU.

**56.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddull Llywodraeth Cymru o reoli cyllid cyfalaf cyn gynted â phosibl pan fydd rhagor o wybodaeth am ei sefyllfa cyllido cyfalaf yn hysbys ar ôl i adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ddod i ben.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau na fydd newidiadau IFRS16 yn effeithio ar gapasiti gwariant Llywodraeth Cymru, ac yn egluro a fydd graddfa newidiadau IFRS16 yn y gyllideb atodol yn cael ei hailadrodd mewn cyllidebau dilynol.

[71] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Ail Gyllideb Atodol 2023-24, Mawrth 2024, Argymhelliad 1
[72] Y Pwyllgor Cyllid, Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol, 14 Hydref 2024
[73] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, Argymhellion 7 ac 20

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet:

- yn rhoi rhagor o eglurder ar ei benderfyniadau ynghylch cyllid ar gyfer dyfarniad cyflog y GIG cyn y cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth y DU y byddai hyn yn gyllid rheolaidd;
- yn esbonio sut y mae hyn yn cyd-fynd â rheolau cyllidol Llywodraeth Cymru ei hun ynghylch fforddiadwyedd,
- yn rhoi manylion am asesiadau effaith a wnaed o sut y byddai'r penderfyniad hwn yn effeithio ar feysydd eraill o gyllideb Llywodraeth Cymru, ac
- yn amlinellu'r risgiau a nodwyd wrth fabwysiadu dull o'r fath.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn uwchgyfeirio trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trysorlys ar ddiweddaru'r fframwaith cyllidol, ac yn rhoi manylion ynghylch pryd y bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gweithredu a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar allu Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddull Llywodraeth Cymru o reoli ei chyllidebau cyfalaf cyn gynted â phosibl ar ôl i adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ddod i ben, gan gynnwys syniad ynghylch a fydd y dull presennol o or-ddyrannu cyllidebau cyfalaf yn parhau, a'r effaith y bydd unrhyw newidiadau yn ei chael ar feysydd eraill yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi amcanion yr Ysgrifennydd Cabinet o uwchraddio ffigurau yn y fframwaith cyllidol a datblygu perthynas fwy effeithiol â'r Trysorlys sy'n seiliedig ar symud i ffwrdd o'r dull microreoli o ran cyllid datganoledig sy'n cael ei gymhwyso ar hyn o bryd.

# 3. Dyraniadau Adrannol

**57.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai prif ddiben y gyllideb atodol oedd sicrhau bod y Senedd yn cael gwybodaeth ddigonol am y penderfyniadau gwariant sydd wedi cael eu gwneud a sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu hariannu.[74]

**58.** Pan ofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet egluro'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y dyraniadau adrannol a nodir yn y gyllideb atodol yn ddealladwy, atebodd fel a ganlyn:

> *"I think this is quite difficult, really, because there's more than one audience, isn't there, for any budget. For people who need to know about these things because they are having to deal with it and manage it out there in local authorities, or wherever the impact is felt, there is training and guidance and everything like that."*[75]

**59.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"Whether the person on the Grangetown omnibus understands the differences that we've just been describing between cash, non-cash, cash you can spend, cash you can't spend and things like that, I very much doubt."*[76]

**60.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"I'm not really sure that it is very easy to find an explanation that people would understand beyond making these very sort of commonsense distinctions by saying to people that Government budgets include money that you can spend and money that you can't spend, and this budget covers them both."*[77]

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**61.** Mae'r gyllideb atodol yn cynnwys £373.278 miliwn o ddyraniadau o gronfeydd refeniw cyllidol wrth gefn ar gyfer y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

[74] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 176
[75] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 256
[76] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 258
[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 258

Mae'n cadarnhau'r dyraniad o £141.3 miliwn mewn cysylltiad â chyllid canlyniadol o Gyllideb y DU ym mis Mawrth, y nodir y bydd yn "cefnogi dyraniadau i GIG Cymru" (trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 2).[78]

**62.** Dyrennir £39 miliwn ychwanegol i gefnogi'r dyfarniad cyflog i feddygon sy'n gysylltiedig â 2023-24.[79] Ynghyd â hynny, dyrennir £117.07 miliwn ar gyfer SCAPE (trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 2) a £75.908 miliwn mewn cysylltiad â'r Gordal Iechyd Mewnfudo.[80]

**63.** O ran cydnerthedd ariannol cyrff y GIG am weddill 2024-25, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"… the position is a lot better than last year. I'm not saying that health boards aren't facing some real pressures on them—they are. But when we were doing that exercise last year, it was very much driven by the fact that health boards everywhere were telling us they couldn't live within the budgets that had been allocated to them, and we had to find money from elsewhere to do that. This year, at this point, health boards are a lot closer to managing within the budgets that they have available as they go into this winter."*[81]

**64.** Er na ddiystyrodd yr Ysgrifennydd Cabinet y posibilrwydd o ymyrryd i roi cymorth i gyrff y GIG yn ystod cyfnod y gaeaf, cadarnhaodd nad oedd unrhyw gynlluniau ar waith i wneud hynny ar hyn o bryd.[82]

## Addysg

**65.** Yn gyffredinol, gwnaed £15.663 miliwn o ddyraniadau o gronfeydd refeniw cyllidol wrth gefn i'r MEG Addysg, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig â SCAPE (a drafodir ymhellach ym Mhennod 2).[83]

---

[78] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraffau 2.6 a 6.2
[79] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cynigion dyfarniad cyflog 2023-24 i feddygon iau, meddygon SAS a meddygon ymgynghorol i atal y streiciau, 7 Mehefin 2024
[80] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 6.2
[81] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 277
[82] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 281
[83] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 6.2

**66.** Mae £237.569 miliwn o adnoddau anghyllidol sy'n ymwneud â'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer Darpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn.[84]

**67.** Cadarnhaodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet y bu gostyngiad yn y gyllideb addysg, ond nododd ei fod yn ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr, sy'n elfen anghyllidol.[85] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"It's sort of a double ring fence, in that it is non-fiscal, so there is no cash attached to it, and it can only be used for the purposes of student loans."*[86]

**68.** Pan ofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet a allai Llywodraeth Cymru wneud mwy i wahanu'r costau sy'n ymwneud â darpariaeth benthyciadau i fyfyrwyr oddi wrth weddill y MEG Addysg, esboniodd fod y Llywodraeth yn cyhoeddi un tabl lle y gellir gwneud hynny, ond cydnabu y gallai'r Llywodraeth geisio disgrifio pethau mewn ffordd sy'n ei gwneud yn fwy amlwg.[87]

**69.** Roedd y MEG hefyd yn cynnwys trosglwyddiadau refeniw o £505.687 miliwn a throsglwyddiad cyfalaf o £1.2 miliwn. Nodir yn y naratif fod y mwyaf sylweddol o'r rhain yn ymwneud â BEL Medr.[88]

**70.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y ffordd y mae'r cyllid ar gyfer Medr wedi cael ei nodi yn y gyllideb atodol:

> *"… the big change in the education budget is the way in which budgets are now being aligned with Medr, the tertiary and research body. So, on 31 July this year, the Higher Education Funding Council for Wales ceased to exist, and for budget purposes, their budget is transferred to the new body and, at the same time, a significant amount of money is transferred from the Welsh Government education budget…now it appears in the budget of Medr. So, the money is being used for exactly the same purpose that it was before, but it now appears in a different budget line."*[89]

[84] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 6.5
[85] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 293
[86] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 295
[87] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 300
[88] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 5.3
[89] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 290

**71.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… it looks as though the education budget has gone down by that much [£215 million], but the Medr budget has gone up by that amount. So, you will see in here there's a £500 million budget that is created for the new body and, essentially, it's a combination of HEFCW resources and post-16 resources that previously appeared in the education budget line, consolidated into the resources available to the new body."*[90]

## Trafnidiaeth

**72.** Yn y gyllideb atodol, nodir trosglwyddiadau sy'n gysylltiedig â Llinellau Craidd y Cymoedd i'r MEG Trafnidiaeth, sef £18.72 miliwn o gronfeydd refeniw cyllidol wrth gefn ac £20.280 miliwn o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn.[91] Trosglwyddwyd rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail i Trafnidiaeth Cymru ar 28 Mawrth 2020.[92] Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU sy'n parhau i fod yn gyfrifol am holl seilwaith rheilffyrdd Cymru, ac eithrio Llinellau Craidd y Cymoedd, ac fe'i rheolir gan Network Rail.[93]

**73.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet yr hyn y mae'r trosglwyddiadau ychwanegol yn ymwneud ag ef:

> *"… the core Valleys lines are a new responsibility for the Welsh Government. It was negotiated, primarily, by my predecessor, during his period as First Minister. So, we took over the responsibility for the running and the maintenance of the core Valleys line, and a sum of money, capital and revenue, came across to the Welsh Government to take account of those new responsibilities. There has been an ongoing conversation ever since as to whether or not the amount of money that came across was a proper reflection of the cost that would be involved in running and maintaining those lines."*[94]

**74.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

[90] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 290
[91] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraffau 6.2 a 6.6
[92] Metro De Cymru, rheolwr seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd
[93] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Railway infrastructure in Wales (Saesneg yn unig)
[94] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 312

> *"... the amount of money it was costing already should have come with the responsibility, and that's both capital and revenue, and is still part of an ongoing conversation with the UK Government as to whether or not those transfers fully reflected the money that was being spent at the time of transfer."*[95]

**75.** Roedd y MEG hefyd yn cynnwys trosglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £43.053 miliwn, sy'n cynnwys £34.333 miliwn i'r BEL Trafnidiaeth Cymru o'r BEL Cymorth i Fysiau.£25.840 miliwn), y BEL Blaenoriaethau Trafnidiaeth Leol (£5.450 miliwn), a'r BEL Teithio Cynaliadwy a Llesol (£3.043 miliwn).[96]

**76.** Pan ofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd y cyllid ychwanegol a roddwyd i'r BEL Trafnidiaeth Cymru yn dangos bod blaenoriaethau'r Llywodraeth wedi symud i ffwrdd o gyllidebau sy'n gysylltiedig â bysiau, trafnidiaeth leol a theithio llesol, atebodd fel a ganlyn:

> *"I don't think it's so much a shift in priorities as just a recognition of the fact that the core Valleys lines, which is where this money has gone to, is a programme that is more expensive than was originally anticipated. So, the impact of construction, inflation and of supply-chain constraints means that the costs of maintaining and improving the core Valleys lines were greater than was originally anticipated, and money has been moved around inside the MEG—this is all money within the transport MEG—in order to accommodate those additional costs. So, it's not a policy decision, rather that's a practical recognition of something that's costing you more than you planned and you've got to find a way of paying for it."*[97]

## Barn y Pwyllgor

**77.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau a wynebir gan Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno gwybodaeth gymhleth a thechnegol am ddyraniadau a throsglwyddiadau'r gyllideb yn ei chyllideb atodol. Nodwn hefyd fod Llywodraeth

---

[95] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 312
[96] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-2025: Nodyn Esboniadol, paragraff 5.4
[97] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 307

Cymru yn paratoi'r ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol gyda chynulleidfa benodol mewn golwg.

**78.** Fodd bynnag, dro ar ôl tro yn ystod ein trafodaethau ynghylch y gyllideb atodol, cawsom drafferth deall gwir effaith symudiadau arian parod a rhai nad ydynt yn arian parod. Rydym yn derbyn bod angen darparu'r manylion yn naratif a thablau'r gyllideb atodol, ac rydym yn ddiolchgar am hyn, ond serch hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth mewn cyllidebau atodol yn y dyfodol i helpu i wahaniaethu rhwng dyraniadau a newidiadau lle y gallai fod gan Lywodraeth Cymru lai o ddisgresiwn i wario, megis Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (IFRS16), SCAPE a benthyciadau i fyfyrwyr. Ochr yn ochr â hynny, byddem yn croesawu dynodiad clir o effaith gyffredinol newidiadau sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi penodol a wneir gan Lywodraeth Cymru, pan fo gan Lywodraeth Cymru fwy o ddewis dros ei phenderfyniadau cyllid.

**79.** Cred y Pwyllgor fod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Cabinet i egluro mor glir â phosibl effaith y penderfyniadau cyllidebol a wneir yn y gyllideb atodol, a hynny er mwyn sicrhau y gellir eu deall yn glir a lleihau'r risg o ddryswch. Rydym yn croesawu awgrym yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai Llywodraeth Cymru geisio disgrifio pethau yn y gyllideb atodol fel bod natur y dyraniadau yn fwy amlwg a gofynnwn i'r Llywodraeth ystyried gwneud hynny ar gyfer cylchoedd cyllidebol dilynol.

**80.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod sefyllfa ariannol bresennol cyrff y GIG yn well nawr na'r llynedd ac yn croesawu'r ffaith bod byrddau iechyd yn llawer agosach at weithredu o fewn eu cyllidebau cyn wynebu pwysau'r gaeaf eleni. Rydym hefyd yn nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau gweithredol i ymyrryd ond na ellir diystyru hyn. O ystyried maint y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid ychwanegol ar gyfer pwysau'r gaeaf, yn enwedig gan nad oes cynlluniau ar waith ar hyn o bryd, a gofynnwn i'r Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariadau am y gwaith sy'n cael ei wneud i ddeall pwysau'r gaeaf a'r effaith ariannol debygol pe bai angen cyllid ychwanegol ar gyrff y GIG yn ystod gweddill 2024-25.

**81.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cael cyfrifoldebau newydd dros Linellau Craidd y Cymoedd. Er ein bod yn cydnabod bod trafodaethau ynglŷn â hyn yn mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, roedd yn syndod clywed bod y drafodaeth yn parhau o ran y cwestiwn a yw'r swm o arian a ddyrannwyd gan Lywodraeth y DU yn ddigonol ai peidio i dalu am y cyfrifoldebau hyn. At hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cyllid

ychwanegol a ddyrannwyd i Linellau Craidd y Cymoedd yn y gyllideb atodol yn adlewyrchu'r ffaith bod y rhaglen yn ddrutach nag a ragwelwyd yn wreiddiol, a bod cyllid wedi cael ei ddarparu o rannau eraill o'r MEG Trafnidiaeth.

**82.** Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o achosion lle y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Yn ein hadroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio sut y caiff dyraniadau o'r fath eu defnyddio ac a fydd angen darparu dyraniadau ychwanegol tebyg yn barhaus. [98] Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod "yn disgwyl y bydd refeniw ychwanegol o incwm arall y flwyddyn nesaf tua £19m yn fwy" ac y byddai'n "parhau i weithio gyda TrC i nodi opsiynau i leihau costau ymhellach a chynyddu refeniw dros y misoedd nesaf".[99]

**83.** Mae'r Pwyllgor yn galw am ragor o eglurder ynghylch dyraniadau a wnaed yn y maes hwn ac yn enwedig y symiau o gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu cael gan Lywodraeth y DU mewn cysylltiad â Llinellau Craidd y Cymoedd. At hynny, nid yw'n glir i ni beth yw effaith trosglwyddiadau yn y maes hwn ar y gyllideb ac a yw'r penderfyniad i gynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd wedi golygu bod meysydd eraill ar eu colled neu'n gwneud llai, er enghraifft gwasanaethau bysiau, gwasanaethau trafnidiaeth leol eraill, a theithio cynaliadwy a llesol.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cymryd camau i sicrhau bod naratif a'r prif ffigurau yn cyd-fynd â chyllidebau atodol yn y dyfodol sy'n esbonio'n glir y newidiadau yng nghyllideb Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud addasiadau sylweddol nad ydynt yn rhai arian parod i fenthyciadau i fyfyrwyr yn y dyfodol, ei bod yn darparu rhagor o fanylion i esbonio sut y mae'r prisiadau wedi newid a disgrifiad ehangach yn nogfennaeth y gyllideb atodol er mwyn osgoi camddealltwriaeth ymhlith aelodau o'r cyhoedd, a allai ddehongli bod y newidiadau'n effeithio ar y cyllid refeniw adrannol sydd ar gael.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu manylion am gynlluniau Llywodraeth Cymru i asesu'r sefyllfa o ran cyllid

---

[98] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, Argymhelliad 31
[99] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, 1 Mawrth 2024

ychwanegol ar gyfer cyrff y GIG i ymdrin â phwysau'r gaeaf eleni a'r effaith bosibl y caiff hyn ar feysydd eraill yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill 2024-25.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau a gynhaliwyd â Llywodraeth y DU ynghylch y trefniadau cyllid sy'n ymwneud â Llinellau Craidd y Cymoedd.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu rhagor o wybodaeth am effaith y trosglwyddiadau o'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymorth i Fysiau, Blaenoriaethau Trafnidiaeth Leol a Theithio Cynaliadwy a Llesol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trafnidiaeth Cymru ac a yw'r rhain yn effeithio ar gyflawni'r meysydd polisi cysylltiedig.

# 4. Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

**84.** Mae cynnig y gyllideb atodol yn cynnig amrywiad i gyllidebau dau o'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau gan Gomisiwn y Senedd (y Comisiwn) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei gyfarfod ar 24 Mai 2023. Ni wnaed cais ar yr achlysur hwn gan Archwilio Cymru.

## Comisiwn y Senedd

**85.** Trafododd y Pwyllgor gynigion cyllideb ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2024-25 ar 5 Hydref 2023[100], a gosododd ei adroddiad ym mis Hydref 2023[101]. Cymeradwyodd y Senedd gyllideb y Comisiwn o £72.195 miliwn ar 15 Tachwedd 2023[102], ac fe'i hymgorfforwyd yng nghynnig y gyllideb flynyddol a basiwyd gan y Senedd ar 5 Mawrth 2024.[103]

**86.** Yng Nghyllideb Atodol Gyntaf y Comisiwn[104], cynigir cynyddu ei gyllideb adnoddau £635,000, gyda chynnydd cyfatebol yn y gofyniad arian parod net. Yn y Memorandwm Esboniadol,[105] nodir cynigion ar gyfer y newidiadau a ganlyn:

- cynyddu cyllideb weithredol y Comisiwn £275,000 i adlewyrchu'r newid yng nghyfraniad y cyflogwr at gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil. Mae hwn yn newid cyfunol i'r costau llinell sylfaen yn y blynyddoedd i ddod;

- lleihau'r gyllideb ar gyfer cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig o £96,000 i adlewyrchu'r gostyngiad yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr, o 19.8 y cant i 18 y cant, gan actiwarïaid y cynllun. Mae hwn yn ostyngiad cyfunol i'r costau llinell sylfaen yn y blynyddoedd i ddod;

- cynyddu costau staffio £456,000 yn y gyllideb weithredol i ariannu addasiad i dair graddfa gyflog isaf y Comisiwn i gydnabod pwysau chwyddiant diweddar. Mae hwn yn newid cyfunol i'r costau llinell sylfaen yn y blynyddoedd i ddod.

[100] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023
[101] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25
[102] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2023
[103] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 5 Mawrth 2024
[104] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25
[105] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25

**87.** Trafododd y Pwyllgor gais y Comisiwn yn gyntaf ar 16 Mai a chytunodd i gynnal sesiwn dystiolaeth ffurfiol gyda'r Comisiwn. Ar 22 Mai[106], clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Hefin David AS, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu
- Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
- Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid, Comisiwn y Senedd
- Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd, Comisiwn y Senedd.

**88.** Roedd Cyllideb Ddrafft y Comisiwn yn cynnwys targed o £315,000 o arbedion ar gyfer 2024-25.[107] Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiwn pa gamau a gymerwyd wrth nodi'r arbedion hyn ac a oeddent yn arbedion rheolaidd. Eglurodd y Comisiynydd y canlynol:

> *"… these savings were non-staff savings. They were things that came out of the non-staff budget. There was a service planning review to consider how we could deliver differently without Member service impact, a historical expenditure analysis and review of working practices due to hybrid, but also the fact that posts that were advertised, which were vacant and then advertised, were delayed in being filled by six months. So, that brought in the £315,000 across that, without having a direct impact on staffing other than the slightly delayed filling of posts."*[108]

**89.** Wrth ateb y cwestiwn a oedd y Comisiwn wedi ceisio nodi arbedion ychwanegol yn ei gyllidebau presennol i ariannu o leiaf ran o'r cynnydd o £635,000 a geisiwyd, dywedodd y Comisiynydd nad oedd yn credu y gellid cyflawni hyn drwy dorri'r gyllideb ymhellach yn ystod y flwyddyn eleni. Dywedodd, wrth chwilio am arbedion o wasanaethau Aelodau, er enghraifft, fod hynny'n mynd i effeithio ar y ddarpariaeth busnes craidd.[109]

**90.** Wrth egluro'r effaith y gallai hyn ei chael ar wasanaethau, dywedodd:

> *"For example, security infrastructure would involve the CCTV system, things like that. It needs continual maintenance and*

[106] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mai 2024
[107] Y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Medi 2023
[108] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mai 2024, paragraff 19
[109] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mai 2024, paragraff 25

> *renewal, and, if you don't do that, then there's a danger it doesn't work. So, that's one thing. Scrutiny of Government requires a degree of spend, certainly broadcasting—the fact that we're online today in good quality and able to be watched. If you start cutting that, then you end up cutting the quality of what we're able to offer the public. As I say, Members' security and Member services—I think Members would start to see a deterioration in what was offered, should that happen in-year this year."*[110]

**91.** Dywedodd y Comisiynydd ei fod hefyd wedi edrych ar leihau cyllidebau eraill, gan gynnwys prosiectau, er mwyn arbed arian, ond ychwanegodd:

> *"… I think those kinds of discussions need to be had with Members, and I don't think it's something you can quickly resolve in an in-year supplementary budget."*[111]

**92.** O ran yr addasiad i dair graddfa gyflog isaf y Comisiwn, esboniodd y Comisiynydd fod yr undebau llafur eisiau gweld cydraddoldeb rhwng graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn.[112] Ychwanegodd:

> *"… as a Commissioner, there was a responsible way of going about that, and that was through negotiation, through having discussions about how it could be done. So, when you introduce, for example, the lowest three of the pay scale, you still need the 5 per cent differential between higher scales. So, you've got to consider how all that is done, and that takes time, it takes negotiation and it takes a process."*[113]

**93.** Fodd bynnag, dywedodd y Comisiynydd y byddai angen trafod ymhellach o ran blynyddoedd eraill, a bod y gwaith hwnnw'n digwydd, ond nad oedd modd sôn amdano eto am fod y drafodaeth honno'n dal i fynd rhagddi â'r undebau llafur.[114] Ychwanegodd y Comisiynydd, oni ellid dod i gytundeb, y byddai effaith ar sefydlogrwydd y Comisiwn, yn ei farn ef, o ran trafodaethau diweddarach â'r undebau llafur. [115]

[110] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mai 2024, paragraff 27
[111] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mai 2024, paragraff 34
[112] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mai 2024, paragraff 30
[113] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mai 2024, paragraff 30
[114] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mai 2024, paragraff 31
[115] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mai 2024, paragraff 64

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**94.** Trafododd y Pwyllgor Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2024-25 ar 18 Hydref 2023[116], a gosododd ei adroddiad ym mis Tachwedd 2023.[117] Cafodd Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2024-25, sef £6.3 miliwn, ei gymeradwyo gan y Senedd drwy gynnig y gyllideb flynyddol ar 5 Mawrth 2024.[118]

**95.** Nid oes cais am unrhyw arian ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru yng Nghyllideb Atodol Gyntaf[119] yr Ombwdsmon. Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae gennym aelod o staff sydd wedi cael ei secondio i Gomisiwn y Senedd am 12 mis o fis Ionawr 2024. Bydd hyn yn arwain at incwm ychwanegol o £45k ar gyfer 2024/25. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn cynnwys cynnydd yn ein hincwm i adlewyrchu'r newid hwn. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn mynd i gostau staff ychwanegol o £45k i ôl-lenwi'r swydd wag y mae hyn yn ei chreu. Felly dim yw effaith net y secondiad hwn."*[120]

**96.** At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr Ombwdsmon tuag at leihau nifer ei swyddfeydd yn unol ag Argymhelliad 8[121] o adroddiad y Pwyllgor ar y Gwaith Craffu Blynyddol ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.[122]

**97.** Nodir bod yr Ombwdsmon wedi gadael llawr cyntaf ac ail lawr ei lety ym mis Ionawr 2024 a'i fod wrthi'n chwilio am denantiaid newydd. O dan y les bresennol, mae rhent ar yr ardaloedd hyn yn ddyledus tan fis Awst 2025, ac mae'r Ombwdsmon wedi bod yn ceisio ildio'r ardaloedd dros ben hyn i'r landlord ar delerau derbyniol. Yn y Memorandwm Esboniadol, nodir bod yr Ombwdsmon yn gweithio i leihau taliadau "ildio" a thaliadau "dadfeiliadau". Er nad oes cytundeb eto, mae cynnydd yn cael ei wneud a bydd yr Ombwdsmon yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.[123]

---

[116] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2023
[117] Y Pwyllgor Cyllid: Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[118] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 5 Mawrth 2024
[119] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cyllideb Atodol 1af 2024-25
[120] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cyllideb Atodol 1af 2024-25
[121] Y Pwyllgor Cyllid: Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[122] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cyllideb Atodol 1af 2024-25
[123] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cyllideb Atodol 1af 2024-25

## Barn y Pwyllgor

**98.** Yn dilyn y sesiwn gyda Chomisiwn y Senedd ar 22 Mai 2024, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Comisiynydd i ddweud ei fod yn fodlon mewn egwyddor ar yr amrywiad cyffredinol y gofynnwyd amdano i'r gyllideb o £635,000, yn amodol ar gynnig Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru.[124] Fel y nodwyd yn y llythyr, mae'r Pwyllgor wedi cael sicrwydd hefyd mai'r targed y mae'r Comisiwn wedi cyllidebu ar ei gyfer, sef £315,000 o arbedion arfaethedig, yw'r swm mwyaf y gellir ei gyflawni heb effeithio ar wasanaethau.

**99.** Er nad yw'n briodol i'r Pwyllgor lunio barn am faterion gweithredol, megis lefelau cyflog staff, mae gennym ddiddordeb naturiol yn effaith gyllidebol y penderfyniadau hynny, yn enwedig pan fyddant yn arwain at geisiadau am gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn y ffordd y caiff arbedion eu nodi yn ystod y flwyddyn ac effaith y rheini ar wasanaethau a'r staff sy'n eu cefnogi. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu ymgysylltu ag Aelodau ynghylch darparu gwasanaethau yn y dyfodol, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Comisiwn a bod modd eu rheoli o fewn yr adnoddau presennol.

**100.** Cafwyd ymateb gan Gomisiwn y Senedd ar 19 Gorffennaf 2024,[125] ac mae'r Pwyllgor yn croesawu'r esboniad tryloyw a roddir ynghylch sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu nodi pwysau ariannol ac arbedion posibl yn ystod y flwyddyn ac o un flwyddyn i'r nesaf. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Comisiwn am ddarparu rhagor o wybodaeth am ei gynlluniau i ymgysylltu ag Aelodau, gan gynnwys sut yr ymgynghorir â hwy ar unrhyw newidiadau i wasanaethau.

**101.** Nodwn hefyd fod y costau hyn wedi'u cynnwys yng Nghyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2025-26[126] fel mesur wrth gefn rhag ofn na chytunir ar y gyllideb atodol, a nodwn ymhellach y bydd y costau'n cael eu dileu o gyllideb derfynol y Comisiwn os bydd y Senedd yn cytuno ar y gyllideb atodol ar 22 Hydref.

**102.** Mae'r Pwyllgor yn nodi Cyllideb Atodol yr Ombwdsmon sy'n cynnig cynnwys incwm ychwanegol a gwariant cyfatebol o £45,000 i adlewyrchu secondiad aelod o staff yr Ombwdsmon i Gomisiwn y Senedd, o fis Ionawr 2024. Ni fydd y

[124] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Hefin David AS, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu, 23 Mai 2024
[125] Llythyr oddi wrth Hefin David AS, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu, at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Gorffennaf 2024
[126] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024

secondiad yn cael unrhyw effaith ariannol ac nid oes angen unrhyw arian ychwanegol gan Gronfa Gyfunol Cymru.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad i'r gyllideb ar gyfer Comisiwn y Senedd a amlinellir yn ei Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2024-25.

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad i'r gyllideb ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a amlinellir yn ei Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2024-25.